

Briff Ymchwil

Cyfres Cynllunio: 05 - Galw ceisiadau cynllunio i mewn

Awdur: **Moya Macdonald**

Dyddiad: **Tachwedd 2017**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Moya Macdonald**
Dyddiad: **Tachwedd 2017**
Rhif Papur: **18-001**

Cysylltwch â ni

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

: 0300 200 7174
: Katy.Orford@Cynulliad.Cymru
: seneddymchwil.blog
: @SeneddYmchwil
: Cynulliad.Cymru/Ymchwil

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

Cyfres Cynllunio: 05 - Galw ceisiadau cynllunio i mewn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynnwys

1. **Beth yw galw i mewn?** 1
2. **Pam mae ceisiadau'n cael eu galw i mewn?** 1
3. **Beth sy'n digwydd pan fydd ceisiadau'n cael eu galw i mewn?** 2
4. **Ffynonellau allweddol** 3

Llywodraeth Cymru 3

Cymorth Cynllunio Cymru 3

Y Porth Cynllunio 3

Y Gwasanaeth Ymchwil 3

1. Beth yw galw i mewn?

Yn gyffredinol ystyrir ceisiadau am ganiatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r 22 awdurdod unedol a'r tri awdurdod parc cenedlaethol.

Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i gymryd y cyfrifoldeb oddi wrth awdurdod cynllunio lleol o ran unrhyw gais cynllunio gan ddefnyddio ei phwerau o dan Adran 77 *Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990*. Yna mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio. Dyma'r broses 'galw i mewn', sydd ond yn effeithio ar nifer fach o geisiadau y flwyddyn.

Gall unrhyw gais gael ei alw i mewn, cyn belled nad yw'r awdurdod cynllunio lleol wedi penderfynu arno eto.

2. Pam mae ceisiadau'n cael eu galw i mewn?

Mae Polisi Cynllunio Cymru, Pennod 3 yn nodi:

> *Ar y cyfan, mae'n well i gynigion datblygu gael eu penderfynu'n lleol gan awdurdodau cynllunio sy'n adnabod eu hardal, ei hanghenion a'r sensitifrwydd cynllunio. Nid yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd ag awdurdodaeth awdurdodau cynllunio lleol oni bai bod angen gwneud hynny.*

Fel rheol, bydd ceisiadau cynllunio yn destun 'galw i mewn' wrth gynllunio materion o bwysigrwydd mwy na phwysigrwydd lleol yn unig. Gallai'r materion hyn godi lle gallai'r datblygiad:

- Wrthdaro â pholisïau cynllunio cenedlaethol;
- Cael effeithiau helaeth y tu hwnt i'r ardal gyfagos;
- Bod yn ddadleuol iawn y tu hwnt i'r ardal gyfagos;
- Yn debygol o effeithio'n sylweddol ar safleoedd o ddiddordeb gwyddonol, cadwraeth natur neu ddiddordeb hanesyddol, neu ardaloedd o bwysigrwydd o ran tirwedd;
- Codi materion diogelwch cenedlaethol; neu
- Codi materion cynllunio newydd.

Gall yr ymgeisydd neu unrhyw barti arall â diddordeb (a elwir yn drydydd parti) ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn i gais gael ei alw i mewn. Rhaid gwneud hyn cyn i'r awdurdod cynllunio lleol wneud ei benderfyniad terfynol. Fodd bynnag, mae penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch a ddylid galw cais i mewn yn ddewisol.

Mae 'Cyfarwyddiadau Hysbysu' amrywiol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gyfeirio at Lywodraeth Cymru bob cais y maent yn bwriadu eu cymeradwyo a lle mae'r datblygiad yn;

- Datblygu ardal perygl llifogydd;
- Datblygiad preswyl sylweddol (hy mwy na 150 o unedau, neu ar fwy na 6 hectar o dir, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);
- Datblygiad mwynau (ar gyfer ennill a gweithio mwynau ar safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);
- Datblygiad gwastraff (sydd wedi'i fwriadu ar gyfer dyddodi gwastraff i dir neu ar dir, heb fod yn unol â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal);

- Echdynnu agregau o safle newydd neu safle presennol o fewn Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol;
- Datblygiad olew a nwy anghonfensiynol, gan gynnwys gwerthuso neu gynhyrchu methan gwely glo, olew siâl neu nwy gan ddefnyddio echdynnu anghonfensiynol, gan gynnwys toriad hydrolig; neu
- Nwyeiddio glo o dan y ddaear.

Yn seiliedig ar gyfartaleddau blynyddol ar gyfer y cyfnod 2012 i 2016, derbyniwyd 47 o geisiadau galw i mewn bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru, gyda 5 cais pellach y flwyddyn wedi'u hysbysu o dan y 'Cyfarwyddiadau Hysbysu' amrywiol a amlinellwyd uchod. O'r cyfanswm hwn o 52, dim ond 3 a alwyd i mewn ym mhob blwyddyn.

3. Beth sy'n digwydd pan fydd ceisiadau'n cael eu galw i mewn?

Mae'r Arolygiaeth Gynllunio, Asiantaeth Weithredol Llywodraeth Cymru, yn penodi Arolygydd Cynllunio i ymdrin â'r cais a alwyd i mewn. Bydd yr Arolygydd yn penderfynu ar y weithdrefn i'w dilyn: sylwadau ysgrifenedig; gwrandawiad anffurfiol; neu ymchwiliad cyhoeddus. Dyma'r un gweithdrefnau a ddefnyddir i benderfynu ar apeliadau cynllunio. Os bydd gwrandawiad cyhoeddus neu ymchwiliad cyhoeddus i'w gynnal, yn ogystal â'r ymgeisydd, mae gan y canlynol yr hawl i gymryd rhan:

- Yr awdurdod cynllunio lleol;
- Y cyngor tref neu gymuned (os gwnaethant gyflwyno sylwadau cynharach i'r awdurdod cynllunio lleol);
- Awdurdodau cynllunio lleol eraill os yw'r safle yn dod o fewn eu hardal ond nad hwythau yw'r awdurdod cynllunio lleol;
- CADW, pe byddai'n rhaid iddynt gael eu hysbysu gan yr awdurdod cynllunio lleol am gais cysylltiedig am ganiatâd adeilad rhestredig;
- Unrhyw barti statudol; a
- Unrhyw berson sydd wedi cyflwyno datganiad achos neu ddatganiad amlinellol.

Mae trafodion y gwrandawiad neu'r ymchwiliad yn agored i'r cyhoedd. Gall aelodau'r cyhoedd, yn ôl disgresiwn yr Arolygydd, gymryd rhan.

Yn gyffredinol, mae ymchwiliad yn dilyn y drefn a ganlyn:

- Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn gwneud datganiad agoriadol ac yna'n galw unrhyw dystion ategol i roi tystiolaeth;
- Mae gan yr ymgeisydd yr hawl olaf i ateb;
- Mae'r cyfranogwyr yn gwneud eu datganiadau;
- Bydd y rhai sydd â hawl i gymryd rhan yn yr ymchwiliad yn gallu galw tystiolaeth (tystion); a
- Bydd yr ymgeisydd, yr awdurdod cynllunio lleol ac unrhyw barti statudol yn gallu holi'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth.

Yna, mae'r Arolygydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru gyda'r canfyddiadau a'r argymhellion sy'n codi o'r weithdrefn ysgrifenedig, y gwrandawiad neu'r ymchwiliad. Caiff y rhain eu hystyried gan Weinidogion

Cymru, a fydd yn penderfynu a yw'r cais i'w gymeradwyo. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet. Fodd bynnag, gall unigolyn wneud cais am adolygiad barnwrol o agweddau cyfreithiol neu weithdrefnol y penderfyniad yn unig.

4. Ffynonellau allweddol

Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Polisi galw i mewn: **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9, Tachwedd 2016) Pennod 3 - Gwneud a Gorfodi Penderfyniadau Cynllunio**
- Canllaw esboniadol ar gyfer y broses Galw i Mewn: **Galw ceisiadau cynllunio i mewn**;
- Canllawiau Gweithdrefnol ar geisiadau cynllunio a alwyd i mewn: **Apeliadau cynllunio a cheisiadau cynllunio a alwyd i mewn - canllawiau gweithdrefnol**
- Cylchlythyr Llywodraeth Cymru (WGC) sy'n esbonio'r categorïau o geisiadau cynllunio y mae'n rhaid eu cyfeirio at Weinidogion Cymru: **WGC 07/2012: Cyfeiriad Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012**
- Gwybodaeth am Alw i Mewn a Chyfarwyddiadau Hysbysu ar gyfer aelodau'r cyhoedd: **Ymyrraeth Weinidogol - Galw i Mewn a Datblygu Hysbysu**

Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** **sy'n helpu unigolion a chymunedau** **cymwys** i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

Y Porth Cynllunio

Y **Porth Cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: **Y Gwasanaeth Ymchwil**